Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |



| | |
|---|---|
| **Dyddiad / Date:** | 14.05.24 |
| **Pwnc / Subject:** | **Ymgynghoriad ar y dull arfaethedig o ddynodi cymwysterau 14-16** |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cyflwyniad**

At ei gilydd, rydym yn cytuno â'r cynigion ar gyfer y dull o ddynodi cymwysterau 14-16. Mae'r cynigion yn ystyried ystod eang o wybodaeth ac mae'r meini prawf eithrio yn glir a synhwyrol.

Rydym yn cytuno ei bod yn bwysig i gymwysterau fod ar gael yn ddwyieithog. Bydd yn bwysig ystyried sut bydd meini prawf eithrio yn cael eu cymhwyso lle na fydd cymhwyster ar gael yn ddwyieithog.

Byddem yn annog Cymwysterau Cymru i ystyried:

- Y costau posibl i ganolfannau yng nghyd-destun eu pwysau cyllidebol presennol a goblygiadau ysgolion o bosibl yn recriwtio staff newydd â'r wybodaeth arbenigol angenrheidiol am addysg alwedigaethol neu dechnegol a allai greu cystadleuaeth ddiangen â darparwyr eraill.
- Yr effaith y gallai cynyddu asesiadau digidol ei chael ar ganolfannau a disgyblion.
- Y pryderon yr ydym eisoes wedi'u codi o ran y cymhwyster medrau cyfannol, gan gynnwys medrau bywyd, medrau gwaith a'r prosiect medrau cyfannol.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

1. Ein hamcan polisi yw y bydd ystod lawn y Cymwysterau Cenedlaethol 14-16 ar gael o fis Medi 2027, ac y byddant yn disodli mwyafrif y cymwysterau cyn-16 eraill a ariennir yn gyhoeddus sydd ar gael ar hyn o bryd. Rydym wedi asesu effeithiau'r amcan polisi hwn fel rhan o'n Hymgynghoriad Cymwys ar gyfer y Dyfodol yn 2021 ac fel rhan o'n hymgynghoriad ar Y Cynnig Llawn o Gymwysterau 14-16 yn 2023.

   A oes unrhyw effeithiau pellach nad ydym wedi'u hystyried wrth weithredu'r amcan polisi hwn?

   Oes

2. Esboniwch eich ateb.

   Er ein bod yn cydnabod bod Cymwysterau Cymru wedi cynnal asesiad effaith trylwyr, rydym yn parhau i fod yn bryderus am y ffocws i wneud 'y gorau o dechnoleg ddigidol'. Mae hyn yn debygol o gael effaith ar ysgolion a disgyblion, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn tlodi. Byddem yn annog Cymwysterau Cymru i ddefnyddio prosesau asesu digidol dim ond pan maent yn cefnogi'r cymhwyster. Bydd yn bwysig i unrhyw asesiad effaith ystyried y costau posibl i ganolfannau a'u pwysau cyllidebol presennol, a goblygiadau ysgolion o bosibl yn recriwtio staff newydd â'r wybodaeth arbenigol angenrheidiol am addysg alwedigaethol neu dechnegol a allai greu cystadleuaeth ddibwys gyda darparwyr eraill.

Gan fod y cymwysterau hyn yn bodoli ochr yn ochr ag ystod o gymwysterau newydd, byddem yn annog Cymwysterau Cymru i ystyried yn ofalus sut mae'r cymhwyster medrau cyfannol, gan gynnwys medrau bywyd, medrau gwaith a phrosiect medrau cyfannol yn cynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd ystyrlon. Yn ein hymgynghoriad blaenorol, fe wnaethom godi pryderon am y set hon o fedrau. Rydym yn parhau i fod yn bryderus am ystyrlonder y cymwysterau hyn ac yn nodi bod risg y bydd canolfannau'n defnyddio'r cymwysterau hyn fel ffordd o ddangos eu bod yn bodloni gofynion y Cwricwlwm i Gymru yn hytrach na'i fod yn gymhwyster sydd ei angen ar ddisgyblion.

Rydym yn credu y byddai'n fwy buddiol pe bai medrau cyfannol yn cael eu hintegreiddio mewn asesiadau a chymwysterau eraill.

3. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n meini prawf eithrio arfaethedig y bydd gofyn i gorff dyfarnu eu bodloni os na all gyflawni un neu fwy o'n hegwyddorion arweiniol?

Bydd angen i gymwysterau o fewn y cynnig 14-16 newydd:

- gysylltu â nodau a dibenion y cwricwlwm newydd, a'u cefnogi;
- bod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, a
- chyfrannu at ystod gydlynus a chynhwysol o gymwysterau sy'n diwallu anghenion pob dysgwr.

Cytuno

4. Esboniwch eich ateb

Mae'r meini prawf eithrio yn ymddangos yn rhesymol a chymesur. Bydd yn bwysig ystyried sut bydd gofyn i ganolfannau neu gyrff dyfarnu ddarparu gwybodaeth i ddangos bod cymwysterau'n bodloni meini prawf eithrio.

5. A oes unrhyw feini prawf eithrio ychwanegol y dylem ystyried eu cynnwys?

Nac oes

6. Esboniwch eich ateb.

Er ein bod yn cytuno â'r meini prawf eithrio, bydd yn bwysig i Cymwysterau Cymru ystyried sut byddant yn cymhwyso'r meini prawf hyn pan na fydd cymhwyster yn cael ei gynnig yn ddwyieithog.

*Os yw'n berthnasol, rhowch enghreifftiau o gymwysterau yr ydych yn ystyried eu bod yn hanfodol i ddysgwyr 14-16 oed na fyddant yn ffurfio rhan o'r cynnig [Cymwysterau Cenedlaethol 14-16] newydd a gymeradwywyd ac na fyddant yn bodloni*

*ein [hegwyddorion arweiniol](). Ein cynnig yw y gellid ond dynodi bod cymwysterau o'r fath yn gymwys i gael cyllid cyhoeddus os ydynt yn bodloni ein meini prawf eithrio arfaethedig.*

7. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r materion arfaethedig y byddwn yn eu hystyried wrth bennu'r graddau y mae cymhwyster yn bodloni ein meini prawf eithrio?

Cytuno

8. Esboniwch eich ateb.

Mae'r broses yn ymddangos yn rhesymol a chymesur

9. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r dystiolaeth arfaethedig y byddwn yn ei hystyried wrth bennu'r graddau y mae cymhwyster yn bodloni ein meini prawf eithrio?

Cytuno

10. Esboniwch eich ateb.

11. A oes unrhyw faterion a/neu dystiolaeth ychwanegol y dylem eu hystyried wrth benderfynu p'un a ddylid cymhwyso eithriad ai peidio?

12.

Nac oes

13. Esboniwch eich ateb.